

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 2

Yn rhad ac am ddim

Mai 2021

Cyrraedd Miliwn o siaradwyr Cymraeg

CYN 2050?

Posib neu beidio?

Posib – wrth gwrs!

Oedolion sy'n dysgu yw'r ateb ond y broblem fwyaf yw bod llawer yn gadael y cyrsiau am wahanol resymau ac mae llawer o'r rhai sydd yn cyrraedd diwedd yr ail flwyddyn yn methu darganfod y drws i mewn i'r gymdeithas. Mae gormod o ddysgwyr yn mynd ar goll i'r iaith.

Beth am annog dysgwyr yr ail flwyddyn i ddechrau cael cyfarfodydd i ymarfer eu hiaith a hynny mewn lle cyhoeddus? Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r Cymry Cymraeg ddod i'w hadnabod nhw ac i roi gwahoddiad iddyn nhw i'r gymuned.

Hefyd, unwaith maen nhw wedi gorffen yr ail flwyddyn bydd y grŵp yna i roi cymorth i'r ail flwyddyn sydd wedi eu dilyn, ac yn y blaen, ac yn y blaen.

Yn sydyn mae pont wedi ei greu i'r gymuned, bydd mwy o'r dysgwyr yn dal ati tan ddiwedd y cwrs achos maen nhw'n cymysgu â dysgwyr mwy profiadol.

Bydd y bont sydd wedi ei greu yn bwydo gwaed newydd i'r cymdeithasau lleol sydd wir ei angen.

Er mwyn cael y gorau o'r cynllun syml yma mae rhaid i'r grŵp gyfarfod mewn lle cyhoeddus, yn yr un lle, ar yr un amser ac yn rheolaidd.

Yr unig beth sydd angen wneud yw:

Cael y tiwtoriaid i'w hannog i ddechrau'r grŵp.

Cael y Fenter Iaith i roi cymorth iddyn nhw wrth fod yna i gadw sgysiau i fynd yn yr wythnosau cynnar.

Gwneud yn siŵr bod y papur bro yn tynnu sylw at y grŵp.

Mae dysgwyr yn llawn brwdfrydedd a bydden nhw yn ased mawr i'r gymdeithas a'r iaith.

Cynllun bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr heb gost i'r llywodraeth

Mae fwy o fanylion ar y dudalen nesaf

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Cynllun Iaith

Ers blwyddyn bellach dw i wedi bod yn cyhoeddi'r cylchlythyr yma, y cyfranwyr bron i gyd yn ddysgwyr. Ces i'r syniad am y cynllun yma ar ôl i un o'r cyfranwyr ysgrifennu am sut wnaethon nhw ffurfio grŵp i gyfarfod yn y Three Cliffs Cafe yn Southgate, Gŵyr. Mae Southgate yn bentref Saesneg ei olwg ond wrth ffurfio'r grŵp maen nhw wedi dod i adnabod llawer o siaradwyr Cymraeg yn y pentref. Mae aelodau'r grŵp wedi cael eu cyflwyno i Gymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt ac erbyn hyn yn aelodau selog.

Mae'r cynllun dw i'n awgrymu uchod wedi ei seilio ar brofiad aelodau o'r grŵp. Roedden nhw'n ysu am gyfle i siarad yr iaith roedden nhw wedi gweithio mor galed i ddysgu. Nid ydyn nhw'n cyfarfod ar hyn o bryd wrth gwrs ond mi fydden nhw'n ail ddechrau cyn cyntedd â phosib.

Pan nes i feddwl am ddechrau cyhoeddi'r Wennol roedd angen cyfranwyr a, gan roedd gen i gysylltiad â'r grŵp yn barod, atyn nhw nes i droi. Erbyn hyn maen nhw wedi cael llawer cyfle i ysgrifennu ac wedi mwynhau'r profiad. Mae eu herthyglau wedi cael eu cyhoeddi yn ein papur bro a hefyd yng Nghylchlythyr Cymdeithas Edward Llwyd. Erbyn hyn mae 14 rifyn o'r Wennol wedi ei gyhoeddi, heb y dysgwyr byswn i byth wedi medru gwneud hynny. Faint o ddysgwyr medrus sydd yn mynd ar goll pob blwyddyn?

Mae creu'r grŵp wedi rhoi agoriad i'r gymdeithas Gymraeg o'u cwmpas iddyn nhw. Maen nhw wedi cael newid byd a'r gymdeithas Gymraeg yr un peth. Os dyna yw'r effaith yn Southgate meddylwch am yr effaith trwy Gymru gyfan petasai'r un peth yn digwydd ym mhob ardal.

Mewn ychydig o fisoedd bydd y dosbarthiadau nos yn dod i ben. Rŵan yw'r amser i ddechrau sicrhau nad ydyn ni'n colli'r dysgwyr sydd yn yr ail flwyddyn ar hyn o bryd.

Peidiwch â gadael pethau'n rhy hwyr!

Hyd y gwn i does neb wedi ffurfio cynllun i'r Cymry Cymraeg ddilyn i sicrhau dyfodol i'r iaith. Dw i'n meddwl bydd y cynllun yma yn gwneud byd o wahaniaeth i lwyddiant dysgwyr i feistrolï'r

iaith. Ond nid siarad am y broblem sydd rhaid – mae angen gweithredu!

Os oes gan rywun gynllun ychwanegol rhwch gynnig arno. Mae pob ymdrech yn cyfrif.

Cerddoriaeth

gan Rob Evans



Fel arfer pan dw i'n ysgrifennu dw i'n ei wneud mewn tawelwch, does dim teledu ymlaen na radio chwaith, dim ond tawelwch. Ond heddiw mae'n wahanol achos dw i'n sôn am gerddoriaeth. Dyn ni gyd yn hoffi dipyn o fiwsig tydan, wedi'r cwbl mae Cymru yn cael ei hadnabod fel 'gwlad y gân'! Heddiw dw i'n gwrandao ar gryno ddisg gantores o'r enw Linda Griffiths - 'Olwyn y Sêr'. Mae Linda wedi bod yn ein swyno ni am lawer o flynyddoedd erbyn hyn. Dim ond saith drac sydd. Ar hyn o bryd dw i'n gwrandao ar y cyntaf

1) Fel hyn mae'i fod

Mae'r gân yn son am y defaid yn cael eu cneifio cyn mynd i'r ucheldiroedd am yr haf, y ffermwyr yn cydweithio a chael y cyfle i sgwrsio a thynnu coes. Ond yn nyddiau prysur heddiw does dim amser i gymdeithasu yn yr un ffordd. Mae hiraeth am yr hen ddyddiau.

2) Cân Merêd

Merêd oedd Meredydd Evans a oedd, efo'i wraig Phyllis Kinney, wrth eu boddau'n casglu caneuon gwerin, mae eu casgliad yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Roedd o'n bennaeth adloniant ysgafn i BBC Cymru ac mae llawer o gerddorion heddiw yn ddiolchgar iddo am ei gefnogaeth. Dyn a wnaeth gwahaniaeth.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

3) Y Ferch o'r Bargoed

Roedd Nain Linda yn dod o Fargoed ond mi wnaeth hi symud efo'i theulu i Faldwyn ble wnaeth hi gyfarfod â thaid Linda. Roedd y ddau yn gariadon ond doedd pawb ddim yn hapus achos roedd ei thaid yn blentyn llwyn a pherth. Ond er i'w thad gynnig llong dwrn o aur iddi am ddod a'r perthynas i ben roedd ei Nain yn bendant o briodi ei Thaid. Cawson nhw fywyd hapus a llwyddiannus.

4) Olwyn y Sêr

Cân gan Alun Sbardun Huws am siwrne o Drawsffynydd yn ôl i Gaerdydd ar noson serog a'r meddwl yn mynd yn ôl at ddyddiau gwell a sut mae pethau wedi newid cymaint mewn amser mor fyr. Bu farw Alun ym 2014. Mi oedd ganddo ddawn ysgrifennu caneuon, pob un yn dweud stori. Roedd o'n chwaraewr gitâr benigamp ond doedd o ddim yn canu. Yn ei amser mi wnaeth ysgrifennu llawer o ganeuon sydd yn britho llawer cryno ddisg ein sêr gorau.

5) Siwrnai Ddi-ben-draw

Yn seiliedig ar lyfr 'The Snowman' gan Raymond Briggs.

6) Digon yw Digon

Dyma stori am Nain a Thaid Linda ar ôl iddyn nhw briodi a'u brwydr i wneud bywoliaeth ar y tir. Cael eu taflu allan o'u fferm gyntaf gan y tiffeddiannwr ond aeth ei Thaid ymlaen ac yn y diwedd roedd o'n ffarmwr llwyddiannus ac yn berchen ar ddwy fferm

7) Rhoddwyd

Teyrnged arall i Merêd a'r cyfraniad wnaeth i'r byd canu gwerin.

Mae'r traciau ar y cryno ddisg yn hyfryd, nid dim ond y canu ond y geiriau hefyd ac er efallai na fydddech yn deall y geiriau i gyd ar y dechrau mi fydddech chi'n clywed pob un yn glir diolch i lais Linda. Mae'r lleisiau yn y cefndir yn perthyn i ferched Linda sydd wedi ffurfio'r grŵp Sorella.

Dyma gryno ddisg byddech yn chwarae drosodd a throsodd ac mae hynny'n beth da – y mwyaf dach chi'n gwrando, y mwyaf dach chi'n dysgu.

Olwyn y Sêr gan Linda Griffiths

Y Cymry a Llundain

1 - Y Diwydiant Llaeth

gan Martin Jones

Mae cysylltiad wedi bod rhwng y Cymry a'r diwydiant llaeth yn Llundain ers dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a pharhaodd y perthynas hwn i ffynnu tan ganol yr ugeinfed ganrif. Er enghraifft, ym 1818, cyfeiriodd awdur cyfoes at laethferched ar strydoedd Llundain gan ddweud taw yn bennaf merched Cymreig oedd y rhain. Wrth i boblogaeth Llundain dyfu yn ystod y ganrif, felly tyfodd treuliant llaeth (a chynnyrch llaeth), ac roedd ateb y galw o ddiwydiant llaeth yn gyfle i'r lluoedd o'r Cymry a oedd yn dod i Lundain, yn rhannol yn sgil tlodi yng nghefn gwlad Cymru.

Fel arfer, byddai rhywun yn chwilio am rownd llaeth a chwsmeriaid cyson, a byddai e'n dosbarthu'r llaeth gan ddefnyddio cart bach. Wedyn, ar ôl arbed tipyn o arian, efallai byddai'n bosib prynu gwartheg a hyd yn oed sefydlu llaethdy. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd hanner y siopau cornel yn Llundain yn llaethdai Cymraeg a oedd yn gwerthu llaeth, caws, a menyn. I gychwyn, byddai'r llaethdai'n cadw gwartheg mewn beudy y tu ôl i'r siop. Gan fod Iddewon ymhlith eu cwsmeriaid, roedd yn rhaid i berchenogion y llaethdai gael bendithio'r llaeth gan rabi.

Erbyn 1900, roedd y nifer o laethdai oedd yn cadw gwartheg wedi lleihau gryn dipyn wrth i'r rheoliadau ynglŷn â chadw anifeiliaid yn y ddinas fynd yn llymach ac wrth i laeth gael ei ddosbarthu i Lundain yn fwyfwy ar y trê. Ond er gwaethaf hyn, mae tystiolaeth bod 36 ceidwaid gwartheg yn dal i fodoli yn yr East End ym 1936, a goroesodd un ohonyn nhw tan 1954! Roedd Morgan Evans yn cadw 21 o wartheg yn Kerbal Street rhwng 1914 ac 1920, ac wedyn 53 o wartheg yn Green Street tan 1933. Symudodd e i Three Cocks Lane ym 1933 gyda 23 o wartheg, ond cafodd ei fusnes ei ddinistrio yn ystod y Blitz.

Gwaith saith niwrnod yr wythnos oedd swydd yn y diwydiant llaeth, ac roedd hyn yn golygu na allai pobl oedd yn gweithio yn y diwydiant hwn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

fynd i'r capel bob dydd Sul. Nid oedd blaenoriaid Capel Jewin (y capel Cymraeg cyntaf yn Llundain) yn hapus am hyn, a bygythion nhw beidio â bedyddio plant y dynion blaeth. Achosodd y bygythiad hwn rwyg yn y gynulleidfa, ac roedd hyn yn un o brif gymelliadau i sefydlu capel newydd yn Charing Cross.

Mewn llyfr wedi'i gyhoeddi ym 1984, adroddodd Mrs Gwyneth Francis-Jones stori ei theulu: tair cenhedlaeth o werthwyr blaeth a symudodd o Geredigion a sefydlu busnes yn Llundain ym 1870. Yn ei llyfr, mae hi'n disgrifio diwrnod nodweddiadol yn eu blaethdy a chawn ni weld mor galed oedd y gwaith. Byddai'r teulu'n codi am bedwar o'r gloch yn y bore, a byddai'r blaethdy'n aros ar agor o saith o'r gloch yn y bore tan hanner nos! Roedd y rownd blaeth cyntaf am saith o'r gloch, ac ar ôl hyn byddai'r dosbarthwyr yn dychwelyd i gael brecwast. Wedyn, roedd yn rhaid iddyn nhw sterileiddio'r cyfarpar, a bwydo ac ysgrafellu'r ceffylau. Roedd ail rownd dosbarthu yn y prynhawn, ac ar ôl hynny roedd hi'n amser ail-wneud y sterileiddio ac yn y blaen.

Er roedd ychydig o'r gwerthwyr blaeth yn ddigon llwyddiannus i ddod yn gyfoethog iawn, enillodd y rhan fwyaf dim ond fywoliaeth gymedrol. Ond mae'n ymddangos roedden nhw'n fodlon bod yn berchen ar fusnes teuluol oedd yn ennill digon i adael iddyn nhw gael bywyd parchus ond eithaf syml.

Erbyn canol yr ugeinfed ganrif, roedd y blaethdai Cymraeg wedi dod yn siopau groser neu siopau pob peth, ac erbyn y 1990au, roedd siopau mwy wedi cymryd eu lle. Mae'n ymddangos taw Lloyds of Amwell Street oedd y blaethdy Cymraeg olaf yn Llundain. Cafodd y busnes hwn ei gadw gan Mrs Lloyd tan 2000, pan oedd hi yn ei hwyth degau.

Cysylltiad masnachol arall rhwng Cymru a Llundain oedd y fasnach mewn brethyn a nwyddau gwlanog. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth y busnes brethynnau yn Llundain yn ail dim ond i'r fasnach blaeth o ran y cysylltiad Cymreig, a chawn ni weld sut datblygodd y busnes hwn mewn rhifyn a ddaw.

I Ddysgwyr y Flwyddyn Gyntaf

You may notice that some of the words here are different to what you have learnt because I'm from north Wales but don't worry, it isn't that different when you get used to it. This is just a framework, just read it as you have learnt it – it will be worth it because it increases your vocabulary and gets you used to the patterns in sentences.

Eira mis Ebrill



Y Dyddiad, 6ed Ebrill 2021, yr amser 6.15 y bore.

Dw i'n mynd allan i redeg. Dw i'n mynd allan o'r drws a gweld eira ar ben y car. Mae'r eira wedi rhewi. Mae hi'n oer.

Dw i'n dechrau cerdded. Dw i'n troi i'r dde. Mae coeden ceirios yn llawn blodau, blodau gwyn.

Dw i'n gweld y petalau'n disgyn oddi ar y goeden.

Na! Dw i ddim yn gweld petalau'n disgyn. Dw i'n gweld eira'n disgyn. Mae hi'n bwrw eira ym mis Ebrill!

Dw i'n dechrau rhedeg, mae hi'n dal i fwrw eira. Mae'r eira'n wlyb.

Dw i ddim wedi gwisgo dillad dal dŵr.

Dw i ddim yn mynd i redeg y ddwy filltir fel arfer.

Dw i ddim ond yn mynd rownd y bloc.

Mae fy nillad yn teimlo'n oer.

Dw i'n cyrraedd adref a newid i ddillad sych.

Dw i'n teimlo'n well. Dw i'n cael paned o goffi. Mmmm neis iawn!

If you would like to try your hand at writing something I would be very pleased to accept your contribution. I wouldn't expect anything beyond what you have learned so far. By using what Welsh you have you will build up confidence and the more confident you feel then the happier you will be with your progress.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Your contribution will help others like you – the more there is to read, the more people will learn.

Geirfa


Coeden ceirios – cherry tree
Llawn blodau – full of flowers
Disgyn – to fall
Rhedeg – to run
Dillad dal dŵr – waterproofs
Fel arfer – as usual
Teimlo – to feel
Cyrraedd – to reach

I Ddysgwyr yr Ail Flwyddyn

Ymweliad â'r mangrofau

gan Cerys Paschali

Ddydd Gwener ddiwethaf penderfynon ni ymweld â Gwarchodfa Natur Al Zorah yn Ajman, un o'r Emiradau llai adnabyddus. Aethon ni yn enwedig i weld y mangrofau sy'n gorchuddio miliwn o fetrau sgwâr yr arfordir yno. Dyma oedd y tro cyntaf i fi fynd i fangrof ac i fynd i gaiacio hefyd. Mwynheais i'r ddau dros ben.



Mae'r coed mangrof yn arbennig iawn gan fod nhw'n goddef dŵr halen. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n ffynnu mewn dyfroedd arfordirol hallt ac yn atal erydiad y draethlin. Mae mangrofau Ajman yn gartref i lawer o wahanol fathau o fywyd gwyllt. Yn ystod ein hymweliad, gwelon ni grancod, stingrays, amrywiaeth o adar mudol yn ogystal â chrëyr glas a gweilch.



Roedd y stingrays newydd ddod i'r parc i roi genedigaeth; yn wahanol i'r mwyafrif o bysgod eraill, maen nhw'n geni babi yn fyw ar ôl i'r wy ddeor y tu mewn i'r stingray benywaidd. Achos bod bywyd yn gallu fod yn ddiostur, roedd ceidwaid y parc yn disgwyl siarcod lemwn i ddod i fwydo ar fabanod y stingray unwaith iddyn nhw ddod i wybod am eu lloches newydd.

Gwelon ni haid fawr o fflamingos a oedd wedi mudo rhag y gaeaf oer a chwerw yn Azerbaijan. Gobeithio eu bod nhw'n aros i fridio hefyd. Gwyn yw lliw'r fflamingos yn y mangrofau achos does dim corgimychiaid yno i fwyta a dyna'r bwyd sydd yn troi fflamingos yn binc!



Heb os nac oni bai y mangrofau eu hunain oedd sêr y sioe. Heblaw golygfeydd hardd i'r eithaf, roedd yn sicr yn le i'r enaid cael llonydd. Wrth fynd ymlaen trwy gliriadau sydyn gwelsom lynnoedd mawr le'r unig grychdonnau i'w gweld oedd y rhai yn dilyn ein caiaiau. Pasion trwy fylchau cul mewn llystyfiant mor drwchus roedd rhaid i'r haul brwydro i ddisgleirio ar wyneb y dŵr bas clir. Roedden ni'n gorfod gorwedd yn fflat a gadael i'r cerrynt fynd â ni. Mae rheswm pwysig pam dylen ni ofalu am y lleoedd unigryw hyn. O'ch chi'n gwybod bod coed mangrof yn amsugno tair gwaith y carbon deuocsid y mae coedwig law'r Amason yn ei wneud? Anhygoel! Am yr holl siarad am newid yn yr hinsawdd, does neb yn sôn am bwysigrwydd mangrofau. Dw i wedi dod ar draws arf cyfrinachol i'w ddefnyddio yn ein brwydr. Tybed?

Geirfa

gwarchodfa natur - nature reserve
mangrof(au) - mangrove(s)
caiac(au) - kayak(s)
goddef - to tolerate
ffynnu - to thrive
erydiad y draethlin - erosion of the shoreline
cranc(od) - crab(s)

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

adar mudol - migratory birds
siarcod lemwn - lemon sharks
crëyr glas - heron
didostur - ruthless
corgimwch - prawn
crychdon(nau) - ripple(s)
llystyfiant trwchus - dense vegetation
amsugno - to absorb
coedwig law - rain forest
newid yn yr hinsawdd - climate change

Dw i newydd gael neges oddi wrth Cerys y bore 'ma yn dweud. "Dw i newydd ddarganfod fy mod i wedi ennill cystadleuaeth Merched y Wawr i ddysgwyr lefel Canolradd gyda thraethawd dw i wedi ysgrifennu ar ôl naw mis o ddysgu. Dw i mor falch."

Wel Cerys dyn ni mor falch hefyd felly llongyfarchiadau a diolch am dy erthyglau difyr yn Y Wennol.

Rob a'r holl ddarllenwyr

Llythyr at fy Wyrion

gan Michael Williams

Mae llawer o adroddiadau diweddar wedi sôn am iselder, a phenderfynais ysgrifennu llythyr at fy naw o wyrion i ofyn sut ydynt yn ymdopi dan glo. Dyma fersiwn gryno o'r llythyr.

"Annwyl Wyr/Wyres, Dw i wedi darllen yn ddiweddar bod llawer o bobl, yn enwedig pobl ifanc, yn teimlo'n isel yn ystod y cyfnod clo. Sylweddolaf ei fod yn anodd peidio â chwrdd â'ch ffrindiau. Felly dw i wedi penderfynu ysgrifennu llythyr at fy holl wyrion am fywyd fy mam pan oedd hi'n tyfu lan a hefyd am fy mywyd pan oeddwn yn ifanc.

Pan oedd fy mam yn ei harddegau buodd hi'n byw ar fferm ger Llanelli lle'r oedd ei thad yn hwsmon. Nid oedd dŵr yn y tŷ na pheiriant golchi. Roedd fy mam yn arfer helpu ei mam gyda'r golchi dillad a oedd yn golygu cerdded trwy gaeau i'r nant. Yno gwnaethpwyd y golchi. Wrth gwrs bryd hynny doedd **dim ffôn na theledu**.

Roedd fy nhad yn gweithio ar fferm yn yr ardal, ac ar ôl cwrdd â fy mam ac ar ôl iddyn nhw briodi symudon nhw i mewn i fyngalo. Roedd gardd

fawr a lawnt fawr yno ond dim peiriant golchi a **dim ffôn na theledu**.

Pan oeddwn yn naw oed symudodd y teulu i bentref ger Castell Nedd, ac unwaith eto doedd **dim ffôn na theledu**.

Roedd fy nhad yn gweithio yng Nghastell Nedd a chefais lifft i'r ysgol gydag ef. Dw i'n cofio yn y gaeaf, pan oedd y tymheredd yn isel, roedd rhaid i fy nhad wagio rheiddiadur y car er mwyn cadw'r dŵr rhag rhewi. Wedyn, yn y bore fe lanwodd y rheiddiadur â dŵr cynnes. Nid oedd peiriant golchi gyda ni chwaith. Roedd bywyd yn hollol wahanol yn yr hen ddyddiau! Nes ymlaen symudodd y teulu eto i Aberhonddu ac o'r diwedd roedd gyda ni beiriant golchi a oedd yn cynnwys mangl, ond **doedd dim ffôn na theledu**.

Ar ôl cwrdd â merch hyfryd yn y brifysgol, yn ystod ein carwriaeth ni allem ddefnyddio ffonau. Roedd fy nghariad yn byw mewn neuadd breswyl a minnau mewn llety; doedd dim ffôn ar gael ar gyfer myfyrwyr. Gwnaethon ni gyfathrebu trwy negeseuon papur ac yn y gwyliau trwy lythyrau. Felly hyd at oedran 24 doedd **dim ffôn na theledu** gyda fi.

Felly byddwch yn ddiolchgar eich bod yn byw yn yr 21ain ganrif, pan allwch chi siarad â'ch ffrindiau ar y ffôn a hyd yn oed eu gweld nhw ar Face Time"

Yng ngweddill y llythyr ysgrifennais am fy ngweithgareddau dan glo, a gorffennais trwy ofyn iddyn nhw beth roedden nhw wedi bod yn gwneud dan glo. Mae'r llythyr gwreiddiol yn cynnwys mwy o fanylion am fywyd yn yr hen ddyddiau, ond y neges bwysicaf yw'r un mewn teip trwm. Mae derbyn llythyr personol yn beth braf a phrin y dyddiau hyn. Dw i'n falch iawn o ddweud fy mod wedi cael ateb oddi wrth ddwy wyres a thri ŵyr hyd at hyn, ac maen nhw i gyd yn dweud eu bod nhw'n ymdopi'n dda. Dechreuodd un ohonynt ysgrifennu llyfr lloffion am y cyfnod clo, mae un arall wedi dechrau dysgu sut i chwarae gitâr, ac un wedi gwneud ffrog. Maen nhw i gyd yn ymarfer corff. Dw i wedi ysgrifennu ail lythyr atynt, ond beth am y wyrion eraill? Cawn ni weld.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Mwynhau Llafar a Llun

gan Ann Simons ac eraill

Dw i'n aelod o grŵp o siaradwyr newydd sy'n gwneud cwrs diddorol iawn ar hyn o bryd. Enw'r cwrs yw Llafar a Llun. Cyn COVID cafodd y cwrs ei gynnal yng Nghanolfan Palmerston, Y Barri. Ers COVID, dyn ni wedi parhau i gael gwersi rhyngweithiol ar Zoom. Dyn ni'n ffodus i gael tiwtor gwych, Ann Davies, sydd wedi ysgrifennu'r cwrs i ni. Mae'r cwrs yn olrhain hanes celf ar draws y byd. Dechreuon ni gyda phaentiadau ogof cyn hanesyddol ac erbyn hyn dyn ni'n edrych ar waith yr Argraffiadwyr ac artistiaid o Siapan. A wyddoch chi fod Van Goch wedi cael ei ddylanwadu yn fawr gan luniau Hokusai, artist enwog o Siapan? Dyma ychydig sylwadau am artistiaid Argraffiadol gan aelodau o'n grŵp ni.

Sylvia

Cyn i fi ddechrau'r cwrs, do'n i'm yn gwybod dim byd am Camille Pissaro. Cafodd e ei eni yn Sain Thomas, India'r Gorllewin yn 1830. Daeth o deulu Iseldiraidd a Ffrengig. Paentiodd mewn steil argraffiadol ac ol-argraffiadol. Roedd e'n hoffi peintio cefn gwlad a hefyd canol Paris. Yn ystod y rhyfel Franco-Prwsia 1870-71, dihangodd i Lundain i fyw yn Upper Norwood. Gellir gweld paentiadau o'i amser yn Llundain yn yr Oriel Genedlaethol, Llundain. Bu farw ym Mharis ym 1903.

Jan

Does dim angen i fi fynd i Ffrainc i weld golygfeydd a ysbrydolodd yr Argraffiadydd Alfred Sisley. Paentiodd Sisley glogwyni Penarth, Bro Morgannwg ym 1897. Dych chi'n gallu mwynhau'r un olygfa heddiw wrth edrych draw dros y pier. Yn ei gasgliadau, mae paentiadau o fae hardd Langland ger Abertawe hefyd. A wyddoch chi fod Sisley yn ffrindiau gyda Monet, Renoir a Pissaro sef Argraffiadwyr mwyaf blaenllaw eu cyfnod?

Lisa

Arlunydd Ffrengig oedd Pierre-Auguste Renoir. Bu'n un o brif arlunwyr y grŵp Argraffiadol. Datblygodd dechneg waith brwsh miniog gyda chyfuniad o liwiau tebyg i ddal symudiad a golau. Cafodd ei eni yn Limoges, Ffrainc ym 1841 i

deulu tlawd. Ym 1844, symudodd teulu Renoir i Baris i chwilio am fywyd gwell. Dangosodd y Renoir ifanc fwy o dalent yn canu nag arlunio a dweud y gwir, ond oherwydd sefyllfa ariannol ei deulu, roedd rhaid i Renoir roi'r gorau i'w wersi cerdd a dechreuodd weithio fel peintiwr ar borslen.

Ym 1862, dechreuodd astudio celf a chwrddodd â Claude Monet. Roedd hon yn foment fawr yn hanes celf wrth i'r ddau ddyn ddatblygu technegau a fyddai'n arwain at chwyldro Argraffiadaeth. Ym 1919, blwyddyn olaf ei fywyd, prynodd y Louvre un o'i luniau ac roedd hyn yn anrhydedd fawr iddo. Dw i'n hoff iawn o baentiadau Renoir oherwydd argraff eu lliwiau llachar ac oherwydd eu bod yn dangos bywyd yn cael ei fyw a'i fwynhau i'r eithaf.

Helen

Ganed Paul Cezanne yn Aix-en-Provence ym 1839. Pan oedd e'n fyfyrwr celf ym Mharis, datblygodd arddull unigryw a beiddgar gan ddefnyddio cylllell balet i daenu paent. Cafodd ei waith ei wrthod sawl gwaith, a'i wawdio gan lawer o feirniaid celf yn y ddinas. Dychwelodd adre a pharhau i baentio yn ei arddull unigryw. Daeth yn dipyn o feudwy gan osgoi dieithriaid pan oedd allan yn braslunio. Ystyrir un o'i baentiadau enwocaf 'The Bathers' yn gampwaith o gelfyddyd fodern a haniaethol a ddylanwadodd ar lawer o beintiadau eraill.

Stewart

Édouard Manet oedd y bont rhwng realaeth Millet neu Corbet a'r golau yng ngwaith yr Argraffiadwyr. Roedd Manet yn arlunydd toreithiog a gwnaeth fywoliaeth o bortreadau. Syfrdanodd ei feirniaid gan ei gyfansoddiadau. Roedd "Le Déjeuner sur l'herbe" ac "Olympia" er yn dilyn y traddodiad clasurol yn rhy fodern i flas beirniaid y dydd. Mae "Un Bar aux Folies-Bergère" yn gofyn y cwestiwn ai chi yw'r dyn yn y drych sy'n ceisio cysylltu gyda'r ferch sy'n gweithio tu ôl i'r bar? Mae ei diflastod hi yn cael ei amgylchynu gan bobl sy wedi eu paentio yn y drych mewn dull argraffiadol.

Megan

Dw i'n mwynhau cwmni pawb yn y dosbarth hwn yn fawr iawn. Dyn ni'n siarad a gwrando ar yr

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

iaith bob wythnos ac yn gwneud gwaith cartref ymchwilio ac ysgrifennu. Dyn ni'n dysgu llawer am bobl drwy'r oesoedd, drwy hanes celf y byd ac mae diddordeb arbennig gyda fi yn yr artistiaid a'r bobl eu hunain.

A dyma her i chi

Beth am drafod gweithiau celf yn eich grŵp siarad chi? Beth am gymharu dau lun gwahanol iawn? Mae llawer o luniau ar YouTube ac mae gwylio clipiau Khan Academy yn rhoi cefndir a chyfle ardderchog i chi wneud nodiadau cyn i chi drafod yn eich grŵp yn Gymraeg. Dechreuon ni ar ddechrau'r flwyddyn gyda rhestr o eiriau defnyddiol. Allwch chi weithio allan beth yw ystyr y geiriau hyn?

Cartŵn

Cerflun Cerfiedig

Cerflun a Fwriwyd

Arlun/llun

Golchlun/ffresco

Murlun

Llun Olew

Cerfwedd

Braslun

Dyfrliw

Impasto/paentio gyda chylllell balet

Fel y gallwch chi weld felly, dyn ni wrth ein bodd yn dysgu am bwnc fel hyn drwy'r iaith Gymraeg a dyn ni wastad yn mwynhau her!

Dyma'r tro cyntaf i mi gael waith dosbarth i roi yn Y Wennol a dw i'n gobeithio eich bod chi wedi ei fwynhau. Dw i'n siŵr bod aelodau o'r dosbarth yma wedi cael profiad da wrth roi'r holl beth at ei gilydd ac wedi datblygu hyder wrth wneud. Rŵan mae'r rhew wedi ei dorri dw i'n edrych ymlaen at erthyglau o'r un fath oddi wrth ddosbarthiadau eraill.

Dic Shonnelly

Wel dw i nôl o fy ngwyliu erbyn hyn a do, mi nes i fwynhau, diolch am ofyn. Roedd y tywydd yn braf a'r môr yn las ond well i mi beidio mynd ymlaen neu mi fydddech chi'n genfigennus. Beth sy'n bwysig yw fy mod i nôl rŵan ac yn barod i esbonio pethau sydd efallai wedi bod yn eich drysu chi.

Chi a ti

Mae Cymraeg yn fwy tebyg i Ffrangeg na Saesneg. Yn Saesneg mae rhywun yn dweud "How are you?" Efo bwy bynnag maen nhw'n siarad ond yn Gymraeg a Ffrangeg mae'n rhaid i chi ddewis rhwng 'ti' a 'chi'. Mae hyn yn drysu dysgwyr ac mae deall y gwahaniaeth yn bwysig. Y broblem yw bod defnyddio 'ti' pan ddylech chi ddefnyddio 'chi' yn cael ei weld fel yn anghwrtais, a hyd yn oed yn beryg o fychanu'r person efo bwy dach chi'n siarad. Yn wir dach chi ddim eisiau gwneud hynny.

Pryd dach chi'n defnyddio 'ti'?

Pan dach chi'n blant, efo brawd neu chwaer, aelodau o'r un dosbarth yn yr ysgol, ffrindiau agos. Eich cefnderoedd (o'r un oedran).

Pan dach chi'n oedolyn. Efo'ch mab neu'ch merch, eich wyrion ac yn y blaen.

Pryd dach chi'n defnyddio 'chi'?

Pan dach chi'n blant. Efo'ch mam neu'ch tad, modryb neu'ch ewyrth. Pobl sydd yn hyn na chi.

Pan dach chi'n oedolyn. Efo'ch mam neu'ch tad, modryb neu'ch ewyrth. Holl oedolion eraill heblaw ffrindiau agos. Pan dw i'n dweud ffrindiau agos dw i'n golygu ffrindiau byddech chi'n gwahodd i gael cinio, bobl dach chi'n rhannu eich bywyd efo.

Pryd fydddech chi'n newid i ddefnyddio 'chi' efo rywun? Gadewch iddyn nhw roi'r gwahoddiad i chi alw nhw'n 'ti'. Mi fydden nhw'n gwneud hynny os byddech chi wedi cyrraedd y lefel yna o gyfeillgarwch – os o gwbl!

Felly, i grynhoi. Defnyddiwch 'chi' tu allan i'ch cylch o ffrindiau agos tan i rywun ddweud wrthoch chi i alw nhw'n 'ti'.

Rhan fwyaf o'r amser – defnyddiwch 'chi'!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Dyma'ch cyfle i ennill £150!

Cystadleuaeth: Erthygl i'r Naturiaethwr

Oes gennych chi ddiddordeb mewn byd natur, neu mewn effeithiau dyn ar fydd natur?

Y *Naturiaethwr* yw cylchgrawn Cymdeithas Edward Llwyd, sef Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwyd y Gymdeithas ar ôl y naturiaethwr, yr ieithydd a'r hynafiaethydd Edward Llwyd (1660 - 1709).

Penderfynwyd cynnal cystadleuaeth i ddysgwyr i ysgrifennu erthygl ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â diddordebau Edward Llwyd.

Sonnir am ei ddiddordebau yn yr englyn er cof amdano gan John Morgan, yn y ddeunawfed ganrif:

Meini nadd a mynyddoedd – a gwaliau

Ac olion dinasoedd

A dail, dy fyfyrdd oedd,

A hanesion hen oesoedd.

Dylid i'ch erthygl fod rhwng mil a dwy fil o eiriau a chroesewir lluniau addas i fynd gyda'r erthygl, a dylid anfon erthyglau yn ffurf MS Word neu raglen gyfrifiadurol gyffelyb, os bosib, drwy e-bost at: naturiaethwr@triban.net

Bydd erthyglau addas yn cael eu cyhoeddi yn *Y Naturiaethwr*, a bydd gwobr o £150 i'r erthygl orau.

Anfonwch eich erthygl erbyn 5ed o Orffennaf 2021 os gwelwch yn dda.

Mae enghreifftiau o'r Naturiaethwr i'w gweld ar y we, yma:

www.cymdeithasedwardllwyd.cymru/y-naturiaethwr/

Beth am ddod at eich gilydd fel dosbarth i ysgrifennu erthygl i'r Wennol?

Ces i fy mhlesio'n arw pan ges i'r erthygl oddi wrth Ann Simons 'Mwynhau Llafar a Llun'. Gwaith dosbarth Gymraeg y Barri oedd hyn. Pob un yn gwneud cyfraniad.

Dw i'n meddwl bod ysgrifennu Cymraeg yn bwysig iawn i ddysgwyr ond mae llawer yn meddwl na allen nhw ysgrifennu. Mae'n rhaid i rywun cael hwb weithiau er mwyn dangos iddyn nhw faint maen nhw'n gallu gwneud.

Dros y flwyddyn diwethaf mae llawer o ddysgwyr wedi cyfrannu at Y Wennol ac wedi mwynhau y profiad. Mae llawer o bleser i'w gael wrth weld erthygl dach chi wedi ysgrifennu mewn print a sylweddoli bod yr erthygl yna yn cael ei ddarllen gan dysgwyr eraill.

Dw i'n gwneud yn siŵr bod eich Cymraeg yn iawn er bydd rhai camgymeriadau yn mynd trwy'r tyllau yn y rhwydd, mae hynny'n naturiol. Dydw i ddim yn berffaith er dw i'n trio fy ngorau. Beth dw i yn gwybod yw bod y proses o ysgrifennu yn gwella eich Cymraeg achos mae'r erthyglau dw i'n cael yn gwella bob mis. Mae rhai o'r cyfranwyr yn gwneud llawer o waith ymchwil er mwyn ysgrifennu ac yn cael pleser mawr wrth wneud.


Felly sut i ddechrau? Wel dw i angen rywun i ysgrifennu erthyglau byr ar gyfer y dosbarth cyntaf. Does dim angen rywbeth clyfar, dim ond defnyddio y Cymraeg dach chi wedi dysgu. Does dim rhaid i'r stori cael plot, allech chi ysgrifennu am eich ci neu'ch cath, eich gwyliau neu beth dach chi'n hoffi.

Does dim tâl wrth gwrs, mae pob dim yn cael ei wneud am ddim fan hyn, ond byddech chi'n mwynhau ac yn dysgu ar yr un pryd.

Beth amdani? Ewch amdani!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Pos Val



Ar Draws

- 1) Tŷ neu lety haf
- 3) Sero
- 5) Paffiwr
- 7) Gwasanaeth capel
- 8) Sgil
- 10) Gweithwyr
- 12) Llawen
- 13) Mewn iechyd da

I Lawr

- 1) Gwth
- 2) Gwyrddni
- 3) Am wneud te (3,4)
- 4) Meintoli
- 6) Cerddelw
- 7) Teclyn torri
- 9) Hwyl
- 11) Cystadleuaeth redeg

comfortable listening you couldn't do better than choose 'Olion y Sêr'. You will want to listen to it again and again and by doing so you will pick up words that you recognise and perhaps words that you can work out the meaning. The experience will, hopefully draw you into listening to Radio Cymru and an introduction to a whole world of new music interspersed with conversations.

This can only be to your advantage. One day you will find yourself in a real conversation. Regular listening to Radio Cymru will quietly prepare you for this and will inform you about the World of Welsh.

You could get hooked of course – but would that really be a bad thing?



Geirfa

Y Cynllun Iaith

Cyflwyno – to introduce
 Aelodau selog – ardent
 Wedi ei seilio – based on
 Cyn gynted â phosib – as soon as possible
 Medrus – able
 Agoriad – an opening
 Hyd y gwn i – as far as I know
 Ffurio cynllun – to form a plan
 Meistroli'r iaith – to master the language
 Angen gweithredu – need to act

Cerddoriaeth

Mewn tawelwch – in silence
 Cryno ddisg – compact disk CD
 Swyno – to charm
 Cneifio – to shear
 Ucheldiroedd – uplands
 Cydweithio – to work together
 Tynnu coes – to pull someone's leg
 Caneuon gwerin – folk songs
 Pennaeth – the head (of)
 Adloniant ysgafn – light entertainment
 Plentyn llwyn a pherth – illegitimate child



Just a small suggestion this time but one you may really enjoy. Wales is known as the 'Land of Song' and it really does deserve that reputation. It has more than its fair share of opera singers, folk singers, country singers and pop singers. There is a bit of rap too and heavier stuff – something for everybody.

I have told you about Linda Griffiths' CD 'Olion y Sêr' which is lovely but the shops are full of CDs of all kind. It might be difficult for you to go to a Welsh shop to browse the choice – you need to know who you are looking for. If you want easy,

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Llond dwrn o aur – fistful of gold
 Noson serog – starry night
 Penigamp – splendid
 Dawn – talent
 Brwydr – battle
 Bywoliaeth – a living
 Tirfeddiannwr – landowner
 Perchen – to own
 Teyrnged – tribute

Y Gystadleuaeth

Effeithiau – effects
 Naturiaethwr – naturalist
 Cylchgrawn – magazine
 Ieithydd – linguist
 Hynafiaethydd – antiquary
 Diddordebau – interests
 Croesawu – to welcome
 Cyffelyb – similar

Y diwydiant Llaeth

Ffynnu - to thrive
 Llaethferched - milkmaids
 Treuliant - consumption
 Lluoedd - hordes
 Llaethdy - dairy
 Beudy - cowshed
 Iddewon - Jewish people
 Bendithio - to bless
 Ceidwaid - keepers
 Blaenoriaid - chapel elders
 Bedyddio - to baptize
 Cymelliadau - motives
 Cenhedlaeth - generation
 Nodweddiadol - typical
 Cyfarpar - equipment
 Ysgrafellu - to groom
 Bywoliaeth gymerdrol - modest living
 Parchus - respectable
 Machnasol – commercial

Lythyr at fy Wyrion

Adroddiadau – reports
 Iselder – depression
 Ymdopi – to cope
 Hwsmon – bailiff
 Nant – brook
 Peiriant golchi – washing machine
 Tymheredd – temperature
 Rheiddiadur – radiator
 Carwriaeth – courtship

Neuadd breswyl – hall of residence
 Myfyrwyr – students
 Cyfathrebu – to communicate
 Gwreiddiol – original
 Llyfr lloffion – scrap book

Mwynhau Llafar a Llun

Rhyngweithiol – over the Internet
 Olrhain hanes – to follow the history
 Paentiadau ogofau – cave paintings
 Cyn hanesyddol – prehistoric
 Argraffiadwyr – impressionists
 Dylanwadu – to influence
 Ôl-argraffiadol – post impressionist
 Ysbrydoli – to influence
 Clogwyn – cliff
 Casgliad – collection
 Blaenllaw – prominent
 Arlunydd – artist
 Datblygu – to develop
 Miniog – sharp
 Chwyldro – revolution
 Anrhydedd – honour
 Beiddgar – daring
 Gwawdio – to mock
 Meudwy – hermit
 Braslunio – to sketch
 Haniaethol – abstract
 Realiaeth – reality
 Toreithiog – abundant
 Cyfansoddiadau – compositions

Dic Shonnelly

Cenfigennus – jealous
 Drysu – to confuse
 Anghwrtais – discourteous
 Bychanu – to belittle
 Gwahoddiad – invitation
 Cyfeillgarwch - friendship

Atebion y Pos

Ar Draws	I Lawr
1) Hafod	1) Hwb
3) Dim	2) Dail
5) Bocsiwr	3) Dŵr berw
7) Cwrdd	4) Mesur
8) Medr	6) Cerflun
10) Labrwy	7) Cyllell
12) Llon	9) Sbri
13) Iachys	11) Ras